

Gweithdy Gweithgarwch Corfforol

28.11.16

Gwarchodfa Natur Cynffig

Presennol	Sefydliad
Alison Standfast	Llywodraeth Cymru
Darren Mephram	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Eirian Evans	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Heidi Bennett	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol sir Penybont
Judith Tomlinson	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Martyn Evans	Cyfoeth Naturiol Cymru
Natalie Bevan	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Richard Hughes	AWEN
Sian Harrop Griffiths	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Stephen Cook	Cymoedd I'r Arfordir
Stuart Parfitt	Heddlu De Cymru
Vaughan Jenkins	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Ymddiheuriadau	
Alyson Francis	Llywodraeth Cymru
Andrew Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Cllr Huw David	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
David Bebb	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Huw Jakeway	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Joanne Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Katy Chamberlain	Fforwm Busnes Pen y Bont ar Ogwr
Mark Brace	De Cymru Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Martin Jones	Heddlu De Cymru
Peter Vaughan	Heddlu De Cymru
Simon Pirotte	Coleg Penybont
Hefyd yn bresennol	
Andrew Thomas	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Angela Farr	Chwaraeon Cymru
Deborah Morgan (DMn)	Prifysgol Abertawe
Frances Samuel	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Geoff Hobbs	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Helen Fletcher	Cyfoeth Naturiol Cymru
Richard Matthams	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Simon Gwynne	HALO
Yuan Shen	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Gaynor Griffiths	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr

Eitem ar yr Agenda	Sylwadau	Cam Gweithredu
1	Croeso	
1.1	Croesawodd DM bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i bawb ddweud pwy yr oeddent. Cofnodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.	

1.2	Rhoddodd DM beth cefndir ynghylch fformat a themâu'r gweithdai a soniodd am lwyddiant y gweithdy Economi blaenorol.	
1.3	Roedd pawb yn gytûn fod gweithdai yn ffordd dda o weithio. Credai'r aelodau eu bod wedi dod i ddeall rhagor am sefydliadau ei gilydd a'u bod wedi dod yn fwy ymwybodol o'r profiad sylweddol o gwmpas yr ystafell.	
1.4	Nododd ME fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'i Hamcanion Llesiant ac awgrymodd y dylai'r aelodau fwrw golwg drostynt.	
1.5	Yna, estynnodd DM wahoddiad i SHG arwain gweddill y gweithdy.	
2	Cyflwyno'r Cefndir	
2.1	Amlinellodd SHG drefn y bore a rhoddodd gyflwyniad am y cefndir.	
2.2	Yna, aeth SHG yn ei blaen i roi cyfres o gyflwyniadau.	
3	Arwahanrwydd Cymdeithasol ac Unigedd	
3.1	Cyflwyniad gan Deborah Morgan.	
4	Effaith Gweithgarwch Corfforol ar Wella Llesiant	
4.1	Cyflwyniad gan Judith Tomlinson a Frances Samuel.	
5	Cynllunio (gan gynnwys Seilwaith Gwyrdd) i gefnogi gweithgarwch corfforol	
5.1	Cyflwyniad gan Geoff Hobbs a Richard Matthams.	
	<p>Rhoddodd SHG gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau ynghylch y cyflwyniadau a gafwyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> Holodd DM ynghylch cost afiechyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cadarnhaodd SHG mai'r gost oedd £14.1 miliwn (amcangyfrif yn 2002). Gofynnodd JT a oedd ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael ag unigedd wedi'u nodi. Cadarnhaodd DMn mai hwn oedd y cam nesaf. Y ffocws ar y cychwyn oedd ystyried y modd yr oedd pobl yn gallu mynd yn unig. Bydd DMn yn anfon data ynghylch pobl iau at SHG pan fydd hwnnw ar gael. 	
6	Safbwyntiau'r Partneriaid	
6.1	Cylchredwyd cyn y cyfarfod.	
7	Iechyd a Llesiant a'r Amgylchedd Naturiol	
7.1	Cyflwyniad gan Helen Fletcher.	
8	Cael symud Ogwr – gweithio mewn partneriaeth	
8.1	Cyflwyniad gan Andrew Thomas a Simon Gwynne.	
9	Trafodaeth mewn Gweithdy	
9.1	Yna, gofynnodd SHG i'r Bwrdd ymwahanu'n 3 grŵp i ystyried y cwestiynau.	
10	Adolygu a Myfyrio	
10.1	Diolchodd DM i SHG ac i'r hwyluswyr a gofynnodd am grynodedd byr oddi wrth bob grŵp. Cylchredwyd y sylwadau a wnaed yn y Gweithdy cyn y cyfarfod.	
10.2	Gofynnodd DM a oedd y fformat gweithdy yn llwyddiannus. Roedd pawb yn gytûn y dylai'r BGC barhau i edrych o'r newydd ar faterion a nodi blaenoriaethau sy'n ymwneud â themâu penodol a pheidio ag aros am ganfyddiadau'r Asesiad Llesiant.	
10.3	Wedi trafod, nodwyd mai 'Plant' fyddai'r pwnc nesaf. Byddai Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yn arwain ar hyn. (Gweler eitem 11.3 – gwrthdroi penderfyniad).	
10.4	Rhoddodd DM ddiweddariad byr i'r aelodau ynghylch cynlluniau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gomisiynu Prifysgol i fwrw golwg dros y 21 Asesiad Llesiant pan fyddant yn barod cyn adrodd arnynt i'r Archwilydd Cyffredinol.	
11	Gwybodaeth y BGC	

11.1	Cymeradwywyd nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi.	
11.2	Rhoddodd YS ddiweddariad byr ynghylch cynnydd yr Asesiad Llesiant gan nodi nad oedd gan y BGC lawer o amser i ystyried a chymeradwyo'r adroddiad drafft cyn cychwyn ar y broses ymgynghori â'r Pwyllgor Caffael ar 30 Ionawr.	
11.3	Yna, cafwyd trafodaeth ynghylch pwysigrwydd ystyried yr asesiad drafft ac roedd pawb yn gytûn na ddylai cyfarfod nesaf y BGC ddilyn fformat gweithdy hanner diwrnod fel y bwriadwyd. Yn hytrach, bydd yn cyflwyno'r Asesiad Llesiant drafft i'w gymeradwyo.	
11.4	Diolchodd YS i'r aelodau am yr enwebiadau ar gyfer y grŵp Cynllunio Llesiant a nododd fod y grŵp wedi cwrdd unwaith a bod y Cylch Gorchwyl drafft eisoes wedi'i gylchredeg.	
11.5	Cyflwynodd YS adroddiad a roddai sylw i wythnos weithredu Llais Cwm Garw a diwrnod Llesiant Coleg y Dderwyn.	
12	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf	
12.1	23 Ionawr 2017. Cynigiodd SG Ganolfan Fywyd Halo, Pen-y-bont ar Ogwr fel lleoliad ar gyfer y cyfarfod nesaf.	